
# Ein taith Cwricwlwm

Mae Little Lambs yn lleoliad sy'n ymdrechu i sicrhau bod angerdd, creadigrwydd ac arloesedd yn y sector gofal plant. Rydym wedi bod yn rhan o'r grwpiau ffocws yn cyd-lunio a chynllunio'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cymhelir sydd wedi bod yn gyfle gwych i roi cefnogaeth wirioneddol i  hanfodion y blynyddoedd cynnar. Rydym wedi gweld y datblygiadau hyn fel pennod newydd a chyffrous ar gyfer y sector nas cynhelir.

**Beth wnaethom ni?**



Roeddem am gydblethu'r cwricwlwm a'n gwerthoedd ac ethos ein lleoliadau, fel bod y gwaith ac ymgysylltiad gyda'r staff yn ddilys. Dechreuon ni gyda'r pedwar diben. Gwnaethom helpu staff i ddeall terminoleg newydd a sut fyddai'r cwricwlwm newydd yn edrych yn ymarferol.  Gwelsom fod cyflwyno a defnyddio iaith gyson wedi cefnogi'r gwaith o baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd ymhellach.

Teimlem mai'r pedwar diben yw gwreiddiau'r goeden, dyma'r hyn sy'n ei dal yn ei gilydd yn gyfan gwbl ac mae angen eu hytyried pob amser. Er mwyn i ni groesawu'r newidiadau hyn mewn gwirionedd, roedd yn rhaid i ni weld beth rydym eisoes yn ei wneud o fewn y pedwar diben a sut i symud ymlaen.

Gwnaethom ystyried y canlynol:

- Pa gryfderau sydd gennym yn awr?
- Beth ydym am ei wella?
- Beth yw anghenion a diddordebau ein plant?
- Beth yw syniadau ac uchelgais y tîm ar gyfer y gofod?
- Sut y byddwn yn gwella ein lleoliad ac yn sicrhau amgylchedd cyfoethog

**Datblygiad proffesiynol**

Comisiynwyd amrywiaeth o siaradwyr gennym i helpu i gefnogi staff i wneud newidiadau cadarnhaol a rhoi rhywfaint o ysbrydoliaeth iddynt. Drwy fuddsoddi mewn datblygu ein tîm i gael eu hysbrydoli a chredu ynddynt eu hunain, rydym wedi cefnogi'r tîm i deimlo'n gyffrous am y cwricwlwm newydd.



Gwnaethom fuddsoddi mewn hyfforddiant fel:

- Shonette Bason-Wood – 'Disco Toes', llesiant positif a llythrennedd cynnar
- Elizabeth Jarman – Mannau cyfathrebu cyfeillgar
- Tîm Chwarae Conwy – Rhannau rhydd a chwarae mentrus
- Alice Sharp – Theori addysgol, meddwl yn flaengar ac ymarfer i ybrydoli

Mae'r cyfleoedd hyfforddi hyn wedi cefnogi staff i deimlo eu bod wedi'u hysbrydoli,eu cyffroi,a'u cyflwyno i fyd sy'n llawn posibiliadau. Roedd hefyd yn eu cefnogi i weld bod gan eraill rwystrau ac amheuon tebyg. Roedd pob cyfle hyfforddi yn rhoi mwy o hyder i'r staff wrth fynd ar drywydd newidiadau neu barhau ag arferion cadarn sy'n rhoi'r plentyn yn y canol.



Roeddem hefyd wedi buddsoddi mewn estyniad bach i'r eiddo a arweiniodd wedyn i adnewyddu'r lleoliad yn llwyr. Edrychwyd ar y mannau a oedd ar gael gennym o amgylch yr eiddo a sut i wneud y gorau o bob ystafell a man awyr agored er mwyn caniatáu i bob plentyn gael mwy o fynediad i’w hamgylchedd dysgu. Mae hyn wedi bod yn ychwanegiad gwych i'n lleoliad ac mae wedi cefnogi'r amgylchedd i ddod yn gyfoethocach, yn fwy arloesol a hyd yn oed yn fwy cyffrous. Sicrhawyd bod pob Arweinydd Tîm yn cael eu cefnogi i ddylunio eu hamgylchedd eu hunain. Roedd hyn yn caniatáu i'r staff deimlo perchnogaeth o’r lleoliad a'u hystafelloedd. Gwelwyd y tîm yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi'r newidiadau i'r amgylchedd; gwnaethom ystyried mannau tawel, mannau ar gyfer symudiadau mawr, mannau agored a chreadigol, mannau awyr agored, mannau hygyrch ac adnoddau yn ogystal â mannau i staff gwblhau eu gwaith.

**Cydweithio ag eraill**

Fe'n gwahoddwyd i nifer o leoliadau ar draws arfordir Gogledd Cymru i addysgu a chefnogi eu timau i ddeall ac ymgorffori'r pedwar diben o fewn ymarfer a pharatoi ar gyfer y cwricwlwm. Roedd rheolwyr o leoliadau eraill yn teimlo bod y sesiynau'n berthnasol, yn fanwl ac yn caniatau iddynt ymgysylltu, gan gynnig syniadau, ysbrydoliaeth a chymhelliant i ymarferwyr i gryfhau a gwella arferion yn eu lleoliadau.

Byddwn yn parhau i gefnogi lleoliadau ledled Cymru i ddatblygu eu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm.

**Cynllunio ar gyfer dysgu**

Datblygwyd ein pecyn hyfforddi mewnol ein hunain i helpu i ddysgu ein tîm am hanfodion y cwricwlwm ac i edrych mewn manydler ar y pedwar diben gyda'i gilydd. Defnyddiwyd yr amser hwn i ddatblygu ein dulliau cynllunio ein hunain a chefnogi ymarferwyr i ddeall yr angen i gefnogi yr angen i gefnogi’r plant a fydd, yn eu tro, yn llywio ac yn cefnogi cynllunio. Buom yn trafod sut i wrando go iawn ar bob plentyn er mwyn sicrhau bod eu lleisiau i gyd yn cael eu clywed.



Symudwyd i ffwrdd o bynciau/themâu heb unrhyw ddiben a datblygodd y syniad o ddilyn diddordebau neu syniadau plant a sut  fyddai hynny’n edrych. Yn un o'n lleoliadau, cawsom ein harwain gan y plant i ddysgu am ddeinosoriaid dair gwaith yn y flwyddyn honno oherwydd bod y plant yn dangos cymaint o ddiddordeb ynddynt. Yn ystod pob un o’r tri cyfnod yma, roedden ni'n meddwl am wahanol brofiadau i ehangu dysgu a gwybodaeth plant. Mae dysgu pwrpasol yn ymwneud â rhoi pwrpas i'r hyn rydych chi'n ei wneud, ac mae plant yn ymgysylltu’n llawer mwy â phrofiadau sy'n dod â llawenydd iddyn nhw.

**Dogfennu dysgu**

Mae gennym gymaint i feddwl amdano o ran dogfennu dysgu a all weithiau fod yn llethol, a gall fod yn hawdd colli'r cyfleoedd dysgu go iawn.



Mae arddangosfeydd yn ein lleoliad yn cofnodi meddyliau, cyfleoedd a phrofiadau'r plant. Mae gan bob plentyn gofnod o'i daith ddysgu ei hun o'r adeg y dechreuodd yn y lleoliad sy'n cynnwys gwaith y maent wedi'i wneud neu adegau arbennig.

Rydym hefyd yn recordio'n ddigidol drwy ap sy'n cofnodi digwyddiadau i'w rhannu gyda rhieni. Nid oes amseroedd penodol i arsylwi na phwyso ar staff i gael gwybodaeth benodol, yn hytrach mae arsylwadau'n ystyrlon ac yn cofnodi eiliadau sy'n bwrpasol i bob plentyn unigol.



Mae pob plentyn yn cael adolygiad canol tymor sy'n edrych ar ei daith personol ei hun, sy'n caniatáu i staff ymgysylltu â rhieni a rhoi gwybod iddynt am daith bersonol eu plentyn drwy'r lleoliad. Roeddem yn teimlo bod hyn yn rhoi cyffyrddiad mwy personol i asesu yn hytrach na dull generig. Mae'r adolygiad hwn yn caniatáu i ymarferwyr gofnodi pethau y mae'r plentyn wedi'u gwneud drwy gydol y tymor, gan gynnwys sgiliau y maent wedi bod yn eu datblygu ac mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut y gall teuluoedd gefnogi datblygiad eu plentyn ymhellach. Roeddem yn teimlo bod hwn yn ddull mwy personol a hefyd yn cynnwys teuluoedd ar siwrnai addysg eu plentyn.

**Crynodeb**



Mae'r staff wedi teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u cynnwys yn ystod y broses o newid ac mae hyn wedi arwain at dîm deinamig a chryfach. Mae gan y tîm cyfan weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad. Drwy gefnogi'r egwyddorion ym mhob rhan o'r lleoliad, mae plant yn dod yn fwy hyderus, gwydn, pwerus a gwybodus sy'n rhoi sylfaen gadarn iddynt wrth iddynt ddechrau ar eu taith addysg.

Rydym yn cynnig profiadau dysgu pwrpasol a dilys i bob plentyn, yn seiliedig ar eu hanghenion a'u diddordebau, sy'n grymuso plant yn y lleoliad. Rydym yn meithrin deinameg deuluol gref yn y lleoliad sy'n cefnogi plant i deimlo'n ddiogel.

Mae'r dulliau yma yn rhoi rhyddid i staff fod yn arloesol, dilyn diddordebau plant a chefnogi'r pum llwybr datblygu mewn ffordd gyfannol.

Mae dysgu proffesiynol yn hanfodol i gefnogi datblygiad ymarferwyr ac i sbarduno eu creadigrwydd a'u hysbrydoli.

Mae bod yn hyblyg wrth gynllunio neu drwy beidio gor-gynllunio yn caniatáu i ymarferwyr ymateb ar sail yr hyn y mae gan blant ddiddordeb ynddo. Mae'n grymuso ymarferwyr i arsylwi a rhyngweithio â phlant wrth iddynt ddilyn eu diddordebau eu hunain ac asesu a symud y dysgu ymlaen yn y foment honno.

## Felly, beth nesaf?



Rydym yn teimlo'n gyffrous am y newidiadau sydd o'n blaenau ac yn barod i gofleidio'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir.

Mae dysgu drwy chwarae a dysgu drwy arweiniad plant yma i aros, ac mae'r egwyddorion a'r addysgeg yn deillio o'r hyn a wyddom eisoes. Cofleidiwch y newid – meddyliwch sut y bydd yn effeithio ar eich lleoliad a sut y byddwch yn gwella cyfleoedd i'ch plant.




**Rydym yn barod!**

***Sam Maitland-Price, Meithrinfa Ddydd Little Lambs, Bae Cinmel, Gogledd Cymru***